**ATODIAD 3**

# Strategaeth Gwasanaethau Clinigol

# Cynllun Ymgysylltu/Camau Gweithredu Allweddol

# Ebrill - Mehefin 2022

**Y Dull**

**“Parhau â'r sgwrs”**

Mae'r rhaglen ymgysylltu yn cynnig cyfle i barhau â'r sgwrs gyda staff, y cyhoedd, cleifion a'n partneriaid ynghylch ein Strategaeth Gwasanaethau Clinigol sy'n cael ei ddatblygu. Dechreuodd hyn â'r gwaith ymgysylltu diwedd i adnewyddu Strategaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd,'Byw'n Iach, Aros yn Iach'.

**Mapio rhanddeiliaid**

Mae mapio rhanddeiliaid yn gam pwysig i ddeall pwy yw ein rhanddeiliaid allweddol ac mae'n ein helpu ni i ymgysylltu â'r bobl iawn yn y ffordd iawn. Rydym yn gwybod fod cydnabod safbwyntiau a gweld gwerth ynddynt yn bwysig o ran datblygu ymddiriedaeth ac maent yn allweddol o safbwynt datblygu enw da i'r Bwrdd Iechyd.

Mae rhywfaint o weithdai a thrafodaethau gyda chlinigwyr a rhanddeiliaid eisoes wedi'u cynnal, a byddwn yn nodi ac yn mapio rhanddeiliaid a all helpu i hysbysu a llywio'r strategaeth ymhellach.

**Gweithgareddau a chyfryngau ymgysylltu**

Er y gellir ymgysylltu wyneb yn wyneb erbyn hyn, rydym yn cydnabod buddion cynnal gwaith ymgysylltu ag amrywiaeth o ddulliau gwahanol, gan ddefnyddio cymysgedd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb traddodiadol a chyfryngau rhithiol megis Teams neu Zoom i gynnal cyfarfodydd ffocws, sesiynau holi ac ateb a sgyrsiau un ac un.

Byddwn yn nodi cyfleoedd i drafod y strategaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid a chasglu safbwyntiau sy'n seiliedig ar wybodaeth, trwy gyfrwng digwyddiadau ymgysylltu a gaiff eu targedu'n benodol neu trwy ddefnyddio cyfleoedd i gysylltu â rhwydweithiau neu grwpiau presennol, er enghraifft, ein Fforymau Ymgysylltu i Ymarferwyr neu ein Fforymau Iechyd a Lles.

Byddwn hefyd yn manteisio at gyfleoedd i ymgysylltu â'n partneriaid trwy gyfrwng fforymau strategol presennol megis y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol.

**Arolygon a holiaduron**

Mae arolygon yn ffordd dda o gasglu safbwynt a chipolygon cyffredinol, ac mae holiaduron yn cynnig cyfle i gasglu adborth â ffocws mwy pendant.

Rydym wedi datblygu holiadur ar-lein a byddwn yn ei hyrwyddo trwy gyfrwng sianeli cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau presennol y Bwrdd Iechyd. Byddwn yn rhannu dolenni at yr holiadur a gwybodaeth berthnasol arall ynghylch sut i gyfranogi trwy gyfrwng rhwydweithiau a grwpiau

rhanbarthol, ardaloedd a chymunedau.  Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfeirio at y wybodaeth berthnasol a chyfleoedd i ymgysylltu yn y briffiadau i bartneriaid y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu hanfon at ei randdeiliaid corfforaethol.

**Ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd**

Mae'n bwysig i ni fod yn gynhwysol a rhoi cyfle i bawb i gyfranogi, yn enwedig grwpiau nas clywir yn aml a'r rhai nad yw'r Saesneg yn famiaith iddynt. Mae gennym ni berthynas sy'n bodoli ers tro â grwpiau o randdeiliaid sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn sicrhau y ceir cyfleoedd i ymgysylltu â hwy.

Byddwn yn darparu gwybodaeth a deunyddiau ymgysylltu mewn nifer o fformatau hygyrch ac mewn nifer o ieithoedd.

**Cynnwys Staff**

Mae safbwyntiau ein staff yn hollbwysig i helpu i lunio'r Strategaeth a chreu ymdeimlad o berchnogaeth, a fydd yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y Strategaeth. Yn ogystal â holiadur ar-lein, y bydd holl staff BIPBC yn cael eu cyfeirio ato, byddwn yn mynd ati i geisio cyfleoedd eraill i ymgysylltu â staff.

**Defnyddio ymatebion i waith ymgysylltu**

Byddwn yn ymdrin yn ddidwyll ac yn dryloyw â'r adborth y byddwn yn ei gael yn sgil gwaith ymgysylltu ac o ran sut byddwn wedi'i ddefnyddio. Byddwn yn llunio Adroddiad Ymgysylltu, a fydd yn manylu ar yr ymatebion a gawn, yn crynhoi'r themâu allweddol, ac yn nodi sut byddwn wedi ymateb iddynt yn fersiwn derfynol y Strategaeth. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn fel un o ddogfennau ategol y Strategaeth.

**Cyflawni'r dull - y Cynllun**

Gweler y tabl drosodd:

| Ebrill/Canol Mai - Cam Cynllunio/Cyn Ymgysylltu | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **Arweinydd** | **Dyddiad Cwblhau** | **Cynnydd/Sylwadau** |
| 1. Cytuno ar y materion a gaiff eu cyflwyno yn yr ymarfer ymgysylltu | KW/SB | 6.5.22 | Cwblhawyd<br>Bydd y materion allweddol yn cynnwys:<br>- Y Weledigaeth Glinigol<br>- Yr Egwyddorion Canllaw<br>- Yr Egwyddorion Cynllunio<br>- Galluogwyr |
| 2. Cytuno ar ehangder a chwmpas yr ymgysylltu a'r "cynulleidfaoedd" allweddol y dylid ymgysylltu â hwy, gan gynnwys amserlenni a diben yr ymgysylltu, e.e. ai'r diben yw hysbysu'r strategaeth neu dim ond rhannu gwybodaeth amdani ac ati. | KW/SB | 6.5.22 | Cwblhawyd:<br>Y sail fydd hysbysu'r strategaeth. Bydd y rhaglen ymgysylltu yn digwydd yn ystod y cyfnod 4 wythnos o'r 1af i'r 30ain Mehefin 2022 |
| 3. Cynnal dadansoddiad o'r rhanddeiliaid i nodi rhanddeiliaid allweddol a all gyfrannu at y drafodaeth. | RC | 6.5.22 | Cwblhawyd |
| 4. Adolygu gweithgarwch ymgysylltu blaenorol (bydd hyn yn hysbysu 2 a 3). | KW/CJ | 6.5.22 | Cwblhawyd |
| 5. Llunio dogfen wybodaeth/trafod allweddol yn cynnwys manylion egwyddorion canllaw, egwyddorion cynllunio, meini prawf ac amserlenni. | KW | 12.5.22 | Ar y gweill |
| 6. Llunio gwybodaeth mewn ystod briodol o fformatau hygyrch i'w defnyddio yn ystod yr ymgysylltu. | KW | 12.5.22 | Ar y gweill |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. Datblygu cynllun i ymgysylltu â'r gweithlu/staff | KW/RC | Heb ei chadarnhau eto | Ar y gweill |
| 8. Os bydd arolwg o randdeiliaid/y cyhoedd yn cael ei ddefnyddio, paratoi'r cwmpas a phenderfynu beth fydd y cwestiynau allweddol. | CJ/RC | | Ar y gweill |
| 9. Creu tudalennau gwe ar gyfer y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol i baratoi at gynnwys newydd | Tîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd | Heb ei chadarnhau eto | Ar y gweill - mae'r cynnwys yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. |
| 10. Datblygu cynllun cyfryngau cymdeithasol | Tîm Cyfryngau Cymdeithasol y Bwrdd Iechyd | Heb ei chadarnhau eto | Heb gychwyn eto |
| 11. Cytuno ar weithgareddau a dyddiadau'r ymgysylltu, e.e. grwpiau ffocws, gweithdai, sesiynau holi ac ateb ac ati. | NL/CF/SB/KW | 12.5.22 | Ar y gweill |
| **Canol Mai/Mehefin - Cam Ymgysylltu** | | | |
| **Gweithred** | **Arweinydd** | **Dyddiad Cwblhau** | **Cynnydd** |
| 1. Trefnu gweithgareddau ymgysylltu - aelodau etholedig yr Awdurdodau Lleol | CJ | 06.05.2022 | Ar y trywydd iawn Gweithdai i'w cynnal gyda phob un o'r 6 Awdurdod Lleol rhwng 06 a 29/06/2022. |
| 2. Lansio'r Arolwg o Farn y Cyhoedd | Tîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd | Heb ei chadarnhau eto | Heb gychwyn eto |
| 3. Gweithdy ar gyfer partneriaid | Tîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd | Heb ei chadarnhau eto | Ar y gweill - yn cynnwys aelodau o'n fforwm i ymarferwyr o'r trydydd sector a'r sector cymunedol |
| 4. Cyfleoedd i roi cyflwyniadau i gyfarfodydd rhwydweithiau cymunedol/Fforymau | Tîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd | Heb ei chadarnhau eto | Ar y gweill |
| **Mehefin - Diwedd yr Ymgysylltu - Dadansoddi ac Adborth** | | | |

| Gweithred | Arweinydd | Dyddiad Cwblhau | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1. Cynnal dadansoddiad ac adrodd ar y canfyddiadau | KW/CJ | Heb ei chadarnhau eto | Heb gychwyn eto |
| 2. Bydd arweinwyr y rhaglen yn adolygu'r canfyddiadau ac yn paratoi argymhellion ynghylch newidiadau i'r strategaeth | KW/CJ | Heb ei chadarnhau eto | Heb gychwyn eto |
| 3. Rhannu'r canfyddiadau â rhanddeiliaid a'u cyhoeddi mewn Adroddiad ar yr Ymgysylltu. | KW/CJ | Heb ei chadarnhau eto | Heb gychwyn eto, bydd yn digwydd ar adeg cyhoeddi'r Strategaeth |